**Cyswllt AD**
**Mehefin, 2014**

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

**TAFLEN WYBODAETH**
**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Ymddeoliad ar Sail Afiechyd**
I gael arweiniad a chyngor pellach, cysylltwch ag AD ar:
***01824 706200***
***cyswlltad@sirddinbych.gov.uk***

**Pwrpas** y daflen wybodaeth hon ydi darparu gwybodaeth am broses ymddeol ar sail afiechyd i aelodau o Gynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol.

**Beth ydi Ymddeol ar sail Afiechyd?**
Os ydych chi'n aelod o'r cynllun pensiwn uchod (gyda'r aelodaeth briodol) a bod yn rhaid i chi roi'r gorau i weithio oherwydd afiechyd, efallai y byddwch yn gallu derbyn taliad uniongyrchol o'ch buddion.

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn buddion afiechyd mae'n rhaid i ymarferydd meddygol, a benodir gan eich cyflogwr, fod yn fodlon nad ydych chi'n gallu gwneud eich swydd oherwydd afiechyd neu wendid meddwl neu gorffol, a bod y posibilrwydd ohonoch chi'n derbyn gwaith cyflogedig cyn cyrraedd eich oedran pensiwn arferol yn isel iawn. Mae'n rhaid i'r ymarferydd meddygol fod yn gymwysedig mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol a heb ymwneud â'ch achos o'r blaen. Os yn briodol, bydd Cyswllt AD yn rhoi cyngor i chi yn ystod y Broses Rheoli Presenoldeb ynghylch dewisiadau Ymddeol ar sail Afiechyd.

Mae gwaith cyflogedig yn cael ei ddiffinio fel gwaith cyflogedig am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis. Gellir derbyn buddion afiechyd beth bynnag fo'ch oed, a dydi derbyn taliadau yn gynnar ddim yn lleihau'ch buddion.

**Sut mae'r buddion afiechyd yn cael eu cyfrifo?**
Mae buddion pensiwn yn seiliedig ar eich aelodaeth yn y cynllun a'r tâl pensiynadwy a gewch, defnyddir hyn wedyn i gyfrifo cyfartaledd gyrfa. Os cymeradwyir ymddeoliad ar sail afiechyd, yna bydd pensiwn ac, os yn berthnasol, cyfandaliad di-dreth yn cael ei dalu i chi ar unwaith.

Wrth benderfynu a ydi aelod o'r cynllun pensiwn yn gallu gwneud ei swydd, bydd ar yr ymarferydd meddygol annibynnol, a benodwyd gan y cyflogwr, angen nodi pa mor debygol ydi'r aelod o allu ennill cyflogaeth bellach. Bydd hyn yn penderfynu dan ba un o'r tair haen o bensiwn afiechyd a delir, gwelwch y manylion isod:-

**Haen Un:**
Gellir dyfarnu buddion a delir yn syth, sy'n daladwy am oes, i aelodau nad ydynt yn gallu ymgymryd â'u swydd yn barhaol ac sy'n cael eu hardystio yn feddygol heb unrhyw obaith rhesymol o gael 'gwaith cyflogedig' cyn eu hoedran ymddeol arferol. Mae buddion Haen Un yn seiliedig ar yr aelodaeth y mae'r aelod o'r cynllun wedi cronni hyd at y pwynt hwnnw YN OGYSTAL Â chyfnod o ychwanegiadau sy'n gyfartal i aelodaeth bosibl yr aelod hwnnw rhwng gadael ac oedran ymddeol arferol.

**Haen Dau:**
Gellir dyfarnu buddion a delir yn syth, sy'n daladwy am oes, i aelodau nad ydynt yn gallu gwneud eu swydd ac sy'n cael eu hardystio yn feddygol heb unrhyw obaith rhesymol o gael 'gwaith cyflogedig' o fewn tair blynedd (ond a fydd yn gallu gwneud hynny cyn eu hoedran ymddeol arferol). Mae buddion Haen Dau yn seiliedig ar yr aelodaeth y mae'r aelod o'r cynllun wedi cronni hyd at y pwynt hwnnw YN OGYSTAL Â chyfnod o ychwanegiadau sy'n gyfartal i 25% o'u haelodaeth bosibl rhwng gadael ac oedran ymddeol arferol.

**Haen Tri:**
Gellir dyfarnu buddion cyfyngedig a delir yn syth i aelodau nad ydynt yn gallu gwneud eu swydd bresennol ond a fydd, yn ôl y dystiolaeth, yn gallu ennill gwaith cyflogedig o fewn tair blynedd o adael y gyflogaeth. Mae buddion Haen Dau yn seiliedig ar yr aelodaeth y mae'r aelod o'r cynllun wedi cronni hyd at y pwynt hwnnw YN UNIG, HEB YCHWANEGIADAU.

Mae'n rhaid i Iechyd Galwedigaethol adolygu aelodau sy'n derbyn taliadau Haen Tri bob 18 mis i benderfynu a ydynt yn gallu ennill gwaith cyflogedig. Os canfyddir eu bod yn gallu cael gwaith cyflogedig, yna bydd y buddion yn cael eu hatal.

Fe allwch chi gael mwy o fanylion am y broses ymgeisio ar gyfer Ymddeoliad ar sail Afiechyd ar Fap Proses Ymddeol ar Sail Afiechyd.

**Beth os ydw i eisoes wedi gadael cyflogaeth?**
Os ydi cyn-weithiwyr, a oedd yn arfer bod yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn teimlo nad ydynt yn gallu parhau i weithio oherwydd afiechyd, yna mae modd iddynt ymgeisio am Ymddeoliad ar sail Afiechyd fel aelod gohiriedig.

I wneud hyn byddai'n rhaid iddynt ysgrifennu at Cyswllt AD i gadarnhau eu bod yn dymuno gwneud cais ac yna, yn unol â'r broses ymddeol ar sail afiechyd arferol, bydd ymarferydd meddygol annibynnol yn cael ei benodi i benderfynu a ydynt yn gallu gwneud eu swydd ai peidio oherwydd salwch neu wendid meddwl neu gorffol, a bod ganddynt lai o siawns i gael gwaith cyflogedig cyn cyrraedd eu hoedran pensiwn arferol.

Os caniateir i aelod gohiriedig Ymddeol ar sail Afiechyd ni fydd yn derbyn ychwanegiadau. Felly, os yn bosibl, mae'n well i chi wneud cais am Ymddeoliad ar sail Afiechyd tra rydych chi'n gweithio.

**Beth y dylwn i wneud os oes gen i ymholiad neu gŵyn am y broses neu'r canlyniad?**
Os oes gennych chi broblem neu gwestiwn ynghylch eich buddion pensiwn a sut maent wedi eu cyfrifo, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Clwyd ar 01352 702761.

Os ydych chi'n anfodlon ag unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynllun fe allwch chi ofyn i'ch cwyn gael ei adolygu dan y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol. I gyflwyno cwyn mae'n rhaid i chi gysylltu â Phensiynau Clwyd ar 01352 702761.

Mae'r Weithdrefn Anghydfod Mewnol yn broses dau gam:

**Cam 1 -** Fe ddylech chi gyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r person sydd wedi ei benodi gan Gyngor Sir y Fflint drwy lenwi ffurflen Cam 1 o fewn 6 mis. Bydd y person a bennir yn adolygu eich achos ynghyd â rheoliadau'r cynllun pensiwn i weld a oes gennych chi achos dilys. O fewn deufis o gyflwyno'ch cwyn byddwch yn derbyn penderfyniad neu reswm dros unrhyw oedi wrth ddod i benderfyniad.

**Cam 2 -** Os ydych chi'n anfodlon â phenderfyniad y person a benodwyd, neu os nad ydych chi wedi cael penderfyniad gan y person hwnnw o fewn 3 mis i wneud y gŵyn, gallwch fynd â'ch cwyn i'r cam nesaf drwy lenwi **ffurflen Cam 2**.

Mae'n rhaid i chi wneud cwyn ysgrifenedig o fewn 6 mis o dderbyn penderfyniad cam 1 neu o fewn 6 mis o'r dyddiad yr oeddech chi'n disgwyl derbyn penderfyniad.

Bydd Cam 2 yn cael ei drin gan swyddog penodol nad ydi o'n gysylltiedig â'ch achos. Bydd y swyddog yma'n gweithredu ar ran yr awdurdod gweinyddu. Bydd eich achos yn cael ei ail-archwilio a bydd y swyddog yn cadarnhau neu'n newid penderfyniad cam 1, neu bydd yn esbonio' rhesymau dros yr oedi mewn gwneud penderfyniad.

Os oes arnoch chi angen unrhyw wybodaeth bellach am gynnwys y daflen hon, cysylltwch â Chyswllt AD ar 01824 706200.

**Pwyntiau i'w nodi:**
Os ydych chi'n gwneud cais am Ymddeoliad ar sail Afiechyd bydd gofyn i chi lofnodi dwy ffurflen ganiatâd. Un ffurflen i roi caniatâd i ni weld eich cofnodion meddygol a'r llall i gadarnhau eich bod yn gallu dychwelyd i'r gwaith o fewn amserlen resymol a bod adleoli meddygol ac addasiadau rhesymol wedi eu hystyried i'ch helpu chi i ddychwelyd i'r gwaith.

Os ydi'ch cais am Ymddeoliad ar sail Afiechyd yn cael ei wrthod yna bydd eich cyflogaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych yn dod i ben drwy Ddiswyddiad ar Sail Gallu gyda'r rhybudd priodol yn cael ei gyflwyno.

**Ymwadiad:**
Mae'r rheoliadau yn ymwneud ag Ymddeol ar sail Afiechyd yn gymhleth a dim ond canllaw syml ydi'r nodiadau yma, nid ydynt yn cynnwys yr holl amgylchiadau ac nid ydynt yn disodli rheoliadau'r cynllun.